Hawdd ei Ddeall

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Gwella system fudd-daliadau Cymru

## Adroddiad o beth sydd wedi cael ei wneud hyd yma








Mai 2026

# Sut i ddefnyddio'r ddogfen yma

Hawdd ei Ddeall

Dyma fersiwn hawdd ei ddeall o: Symleiddio Budd-daliadau Cymru: adroddiad cynnydd trywydd Cam 1.



Efallai y byddwch chi angen help i'w ddarllen. Gofynnwch i rywun rydych chi'n ei adnabod i'ch helpu.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Lle mae'r ddogfen yn dweud **ni**, mae hyn yn meddwl **Grŵp Llywio Symleiddio Budd-daliadau Cymru**. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

**Gwefan:**
llyw.cymru/budd-daliadau-lles

**E-bost:**
TrechuTlodiAChefnogiTeuluoedd@llyw.cymru

Hawdd ei Ddeall Cymru
Easy Read Wales

Gwnaeth Hawdd ei Ddarllen Cymru y ddogfen Hawdd ei Ddarllen hon. Cliciwch yma i ddweud wrthym beth yw eich barn.

# Cynnwys

Am yr adroddiad yma .......... 4

Beth sydd wedi cael ei ddarganfod .......... 7

System fudd-daliadau symlach .......... 15


System Fudd-daliadau Cymru i bawb .......... 20

Rhoi pobl yn gyntaf .......... 23

System Fudd-daliadau Cymru cliriach .......... 26

System Fudd-daliadau Cymru sy’n gweithio ar gyfer y dyfodol .......... 29

# Am yr adroddiad yma




Yn 2024  lansiwyd Siarter Budd-daliadau Cymru. Dyma ganllaw ar sut y dylai budd-daliadau yng Nghymru gael eu rhedeg.

Y nod oedd:



- gwneud yn siŵr bod pobl yn cael y budd-daliadau cywir



- a dim ond unwaith y bydden nhw'n rhoi eu gwybodaeth ar gyfer y budd-daliadau yma yn unrhyw un o gynghorau lleol Cymru.



Fe wnaeth grŵp o'r enw **Grŵp Llywio Symleiddio Budd-daliadau Cymru** gael ei sefydlu




Y nod oedd gwneud yn siŵr bod Siarter Budd-daliadau Cymru yn cael ei chyflawni.



Roedd gan bob cyngor lleol yng Nghymru aelod o staff i wneud y gwaith. Fe wnaeth pob un ohonyn nhw weithio gyda'i gilydd i lywio'r Grŵp Llywio.




Fe gafodd y cynllun ei gyhoeddi yn 2025. Ei enw oedd **Symleiddio Budd-daliadau Cymru Trywydd Cam 1**.





Roedd hyn yn dangos pa gamau sydd angen eu cymryd i wella'r system fudd-daliadau.



Roedd yn edrych ar 3 budd-dal:

- **Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor** – dyma'r budd-dal sy'n cefnogi pobl gyda'r dreth gyngor.
- **Prydau ysgol am ddim** a
- **Grant Hanfodion Ysgolion**.




Dyma adroddiad wnaeth y Grŵp Llywio.




Mae'r adroddiad am:

- Beth sydd wedi'i gyflawni.
- A beth sydd angen ei wneud.

# Beth sydd wedi cael ei ddarganfod




Fe wnaeth llawer o waith gael ei wneud fel rhan o Gam 1.



Fe wnaethon ni ddarganfod pa mor wahanol ydy'r broses fudd-daliadau, yn dibynnu ar ble rydych chi'n byw yng Nghymru.



Mae'r 22 cyngor yng Nghymru i gyd yn gweithio'n wahanol. Mae hyn yn meddwl ei bod hi'n anodd gwneud newidiadau yn gyflym ar draws Cymru.



Ond fe wnaethon ni ddarganfod ei bod yn bosibl ei gwneud yn haws gwneud cais am fudd-daliadau.



Yn aml iawn mae gan gynghorau lawer o wybodaeth am rywun yn barod.



Pan fydd llawer o wybodaeth yn cael ei chasglu am berson neu bwnc mae'n cael ei alw yn ddata.



Pe bai data yn cael ei rannu'n well, fyddai dim angen i bobl ailadrodd eu hunain.



Fe fydai'n gallu helpu rhywun i hawlio budd-dal cyn gwneud cais amdano.



Efallai y bydd angen i'r person roi mwy o wybodaeth cyn iddyn nhw dderbyn budd-daliadau. Ac fe fyddai angen i benderfyniadau gael eu llofnodi gan y cyngor. Ond fe fyddai'n gwneud y broses yn haws.



Fe fyddai angen i'r person sy'n gwneud cais roi llawer llai o wybodaeth nag o'r blaen. Ond mae hefyd yn gallu dibynnu ar y cyngor ei hun a'u staffio neu gyllidebau.

**Dyma beth rydyn ni’n meddwl ddylai ddigwydd:**

## Ateb 1:



Fe ddylai pob cyngor lleol wneud cytundebau i rannu gwybodaeth bwysig. Fe ddylai hyn helpu i ddangos pwy sydd yn gallu cael budd-dal cyn iddyn nhw wneud cais.


## Ateb 2:




Defnyddio un ffurflen gais ar-lein ar gyfer y 3 budd-dal sydd yn cael eu defnyddio yng Ngham 1.



Efallai bydd angen i gynghorau lleol ofyn am wybodaeth ychwanegol. Ond fe fydd yn stopio ailadrodd llawer o waith.



Fe ddylai pob cyngor lleol feddwl am ddefnyddio’r ffurflen gais sengl sydd yn cael ei rhannu.

## Ateb 3:



Fe wnaethon ni weld fod rhai pobl yn cael trafferth cael y budd-daliadau y dylen nhw eu cael.



Mae'r broses yn gallu bod yn anodd ei deall. Mae hefyd yn gallu bod yn anodd cael cefnogaeth.



Fe ddylai cynghorau lleol roi mwy o gefnogaeth i bobl gael mynediad at fudd-daliadau. Dim rheoli budd-daliadau yn unig.

## Ateb 4:



Fe wnaethon ni weld bod y rheolau budd-daliadau yn gallu bod yn anodd iawn eu deall.



Gellid gwneud rhai newidiadau I ddeddfau budd deddfau i wneud hyn yn haws.




Fe ddylid gwneud rhai o’r deddfau a’r polisïau yn symlach.


## Ateb 5:



Mater arall oedd sut mae pobl yn cael eu cefnogi. Hefyd, sut mae gwybodaeth yn cael ei rhoi i bobl a'i chasglu.




Mae hyn hefyd yn cael ei alw yn hygyrchedd. Mae'n meddwl pa mor hawdd ydy hi i bobl ddefnyddio a deall rhywbeth. Dim gwahaniaeth beth ydy eu hanghenion neu eu cefndir.



Mae angen gwella'r broses fudd-daliadau a'r hygyrchedd. Mae angen iddo fod yn symlach i bawb.

## Ateb 6:




Dydy hi ddim yn glir faint o arian ychwanegol y byddai'n ei gostio pe bai mwy o bobl yn cymryd budd-daliadau.



Mae cynghorau wedi dweud yn barod nad oes ganddyn nhw ddigon o arian na staff.




Mae angen i gynghorau lleol weithio allan y costau os ydy pawb yn manteisio ar y budd-daladau y dylen nhw eu cael.



Mae llawer o gynnydd wedi'i wneud gyda'r gwaith sydd wedi cael ei wneud hyd yn hyn.




Ond mae llawer mwy i'w wneud fel bod y system fudd-daliadau yn symlach.



Mae angen i Lywodraeth Cymru a chynghorau lleol barhau i weithio ar hyn a gwneud newidiadau.



Os nad ydy'r newidiadau yma yn cael eu gwneud, mae pobl yn mynd i barhau i golli allan.




Fe fydd yr adroddiad nawr yn dangos mwy o fanylion am waith y grŵp. A beth sydd angen digwydd nesaf.

# System fudd-daliadau symlach

Nodau Cam 1:



- Edrych ar y gwaith mae'n rhaid i gynghorau ei wneud i brosesu budd-daliadau a'i wneud yn symlach.




- Edrych ar gyfreithiau a pholisïau am pwy sydd yn gallu hawlio'r budd-daliadau yma. Edrych ar wella pethau.




- Dod o hyd i ffyrdd o ddarparu'r 3 budd-dal yn well.



Y llynedd fe wnaeth Llywodraeth Cymru gytuno i roi grant i helpu cynghorau i gyflawni Cam 1.



Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) wedi edrych yn fanylach ar y materion ers hynny.




Dangosodd beth sydd angen ei wneud i'w helpu i wella.




Fe wnaethon ni edrych ar y polisïau a'r deddfau y tu ôl i'r 3 budd-dal yng Ngham 1. Fe wnaethon nhw hefyd edrych ar y meini prawf cymhwysedd. Dyma'r rheolau **mae'n rhaid i chi eu bodloni** i gael budd-daliadau.



Mae yna broblemau gyda meini prawf cymhwysedd a chyfreithiau. Mae newid rhain yn gallu cymryd amser hir. Ond mae yna ffyrdd eraill o wneud pethau'n haws.




Mae cynghorau yn gallu defnyddio'r wybodaeth sy'n cael ei rhannu gyda nhw ar gyfer pobl sy'n hawlio Credyd Cynhwysol.




Mae Credyd Cynhwysol yn fudd-dal lles Llywodraeth y DU. Mae'n bosibl defnyddio'r wybodaeth mae pobl yn ei darparu i hawlio Credyd Cynhwysol hefyd i edrych os ydy rhywun yn gallu hawlio Gostyngiad y Dreth Gyngor hefyd.



Mae bron pob un o'r cynghorau lleol yn gwneud hyn erbyn hyn.



Yn aml iawn mae pobl yn gorfod llenwi llawer o ffurflenni cais am fudd-daliadau. Maen nhw'n ailadrodd eu gwybodaeth.



Hefyd, dydy'r ffurflenni yma yn aml ddim yn hawdd i'w darllen a'u deall.



Fe wnaethon ni weithio gyda'r Ganolfan Gwasanaethau Cyhoeddus Digidol i newid hyn.



Fe wnaethon nhw un ffurflen ar-lein. Mae'n bosibl ei defnyddio ar gyfer pob un o'r 3 budd-dal sydd yn cael eu defnyddio yng Ngham 1.



O'i brofi allan fe wnaethon nhw ddarganfod bod gwneud cais yn llawer haws i bobl.




Dydy e ddim yn ateb pob problem. Mae rhai pobl yn cael problemau yn gwneud pethau ar-lein. Ond fe fyddai cefnogaeth wyneb yn wyneb yn gallu helpu gyda hyn.




Fe wnaeth profion o'r ffurflen newydd yma ddangos ei fod hefyd yn arbed llawer o amser. Roedd llai o gwestiynau ac roedd iaith syml yn cael ei defnyddio.



Fe wnaeth pobl ddweud ei fod yn gliriach ac yn haws i'w ddefnyddio.



Fe wnaeth Cyngor Torfaen ei brofi. Fe wnaethon nhw ei chael hi’n gyflymach ac yn haws.



Mae offer wedi cael eu gwneud i helpu cynghorau i ddefnyddio’r ffurflen newydd.




Oherwydd bod pob cyngor yn wahanol, maen nhw ar wahanol gamau gyda’r gwaith yma. Dydy e ddim yn mynd mor gyflym ag roedden ni’n gobeithio.

# System Fudd-daliadau Cymru i bawb


Nodau Cam 1:



- Cynnal ymchwil i weld pa rwystrau mae rhai grwpiau o bobl yn eu hwynebu gyda budd-daliadau.



- Dod o hyd i bobl i fod yn rhan o'r gwaith yma.




- Gwneud cynllun i ddweud wrth staff ac eraill am y gwaith rydyn ni'n ei wneud.




- Edrych ar pa mor hygyrch ydy ffurflenni a gwybodaeth arall.



Mae rhai grwpiau o bobl yn ei chael hi’n anodd cael mynediad at fudd-daliadau.




Mae’r system yn gweithio i rai pobl a dim i eraill. Dydy e ddim yn hygyrch i rai pobl.



Mae budd-daliadau yno i helpu pobl mewn sefyllfaoedd anodd. Mae pobl yn aml eu hangen ar adegau anodd iawn yn eu bywydau.



Fe wnaeth ymchwil gael ei wneud ar sut i wella’r broses gwneud cais Mae llawer o’r rhain wedi’u cynnal fel rhan o Gam 1.



Mae angen gwella hygyrchedd o hyd. Mae angen i gynghorau weithio ar hyn ar frys.



Fe wnaeth Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru arolwg gyda staff. Fe wnaeth rhai problemau gael eu darganfod fel pobl yn cael eu drysu gyda'r system.




Mae ymchwil arall yn dangos sut mae cynghorau yn delio ag ymholiadau yn wahanol.



Mae ymchwil hefyd yn dangos problemau gyda phwysau staff, galw, technoleg a phethau eraill.



Fe wnaethon ni'n siŵr bod cynghorau yn dweud wrth bobl sy'n gweithio mewn llywodraeth leol am eu gwaith.




Mae angen llawer o waith. Fe fydd hyn yn amrywio rhwng pob cyngor.

# Rhoi pobl yn gyntaf

Nodau Cam 1:



- Gwneud yn siŵr bod ffurflenni cais a gwybodaeth arall yn hygyrch.



- Edrych pa mor hyblyg ydy'r system.



Mae'n bwysig i ni edrych ar brofiad pobl o'r system fudd-daliadau.



Mae llawer o bobl yn derbyn y budd-daliadau yma. Ond mae llawer ddylai eu derbyn yn colli allan.



Mae ymchwil yn dangos bod pobl yn gweld y ffurflenni'n anodd ac yn hir. Mae hyn yn gallu stopio pobl rhag gwneud cais.




Mae pobl hefyd yn ddryslyd am y mathau o fudd-daliadau ac os ydyn nhw'n gallu gwneud cais.



Er mwyn datrys rhai o'r problemau yma mae pobl angen ffurflen sengl symlach Hefyd, fe ddylid rhannu gwybodaeth fel bod pobl yn gallu stopio ailadrodd eu hunain.



Unwaith eto, mae ymchwil wedi dangos pa mor wahanol ydy gwaith y cynghorau. A pha wybodaeth maen nhw'n ei gasglu gan bobl.



Efallai y bydd angen llawer o waith mewn rhai cynghorau i sefydlu'r ffurflen newydd. Mae hyn oherwydd yr holl waith sydd ei angen ar gyfer y dechnoleg newydd.



Mae angen edrych ar hyn i helpu i wneud pethau'n haws.



Rydyn ni'n credu ei bod yn bosibl gwneud y system yn fwy person-ganolog. Mae hyn yn meddwl bod y person yn cael ei roi yn gyntaf.

# System Fudd-daliadau Cymru cliriach

Nodau Cam 1:



- Edrych ar wybodaeth sydd wedi cael ei ofyn amdano ac ailadrodd.




- Edrych ar broblemau am rannu gwybodaeth.




- Gwneud canllaw am rannu gwybodaeth.



- Rhannu'r ffyrdd gorau o weithio a beth rydyn ni wedi'i ddysgu.




- Gwneud cynllun clir i hyrwyddo budd-daliadau Cymru.

Adran Gwaith a Phensiynau

Mae pobl yn rhoi eu gwybodaeth yn uniongyrchol i'r cyngor. Neu maen nhw'n cytuno i'r Adran Gwaith a Phensiynau rannu gwybodaeth sydd ganddyn nhw.



Roedd yn rhaid i ni ddarganfod beth oedd angen i gynghorau ei wybod ar gyfer hawliad budd-daliadau. A beth maen nhw'n gallu cael mynediad iddyn nhw trwy wybodaeth sydd yno yn barod.




Roedd y canlyniadau'n wahanol ar draws y cynghorau lleol.




Mae'r rhan fwyaf o gynghorau yn defnyddio gwybodaeth o Gredyd Cynhwysol ar gyfer Gostyngiad y Dreth Gyngor. Mae Credyd Cynhwysol yn cael ei redeg gan yr Adran Gwaith a Phensiynau. Mae hyn ar wahân i'r cyngor.



Fe wnaeth Llywodraeth Cymru rywfaint o waith gyda chynghorau i ddod o hyd i bobl a allai fod yn colli allan ar fudd-daliadau.



Weithiau efallai y bydd y cyngor angen gwybodaeth ychwanegol at beth sydd ganddyn nhw yn barod.




Ac mae angen i gynghorau wneud yn siŵr eu bod yn dilyn deddfau am rannu gwybodaeth.



Fe wnaethon ni weld fod gan gynghorau fynediad at lawer o wybodaeth yn barod.




Mae hyn yn gallu cael ei ddefnyddio i helpu i stopio pobl rhag ailadrodd gwybodaeth.

# System Fudd-daliadau Cymru sy'n gweithio ar gyfer y dyfodol

Nodau Cam 1:



- Edrych ar hyfforddiant a sgiliau mae staff eu hangen.




- Gwneud adroddiad am y wybodaeth mae cynghorau a Llywodraeth Cymru yn ei chasglu.





- Dangos sut mae budd-daliadau Cam 1 yn gweithio.



- Dod o hyd i ffordd i edrych ar pa mor dda mae pethau'n gweithio.



• Rhoi gwybodaeth am wasanaethau defnyddiol eraill.



Ein prif nod ydy gwella pethau. Nawr ac ar gyfer y dyfodol.



Fe wnaethon ni weld bod cynghorau yn gallu dysgu oddi wrth ei gilydd. Gallai fod canllawiau ar gyfer pynciau fel rhannu gwybodaeth a phethau eraill.



Rydyn ni wedi sefydlu ffyrdd o weithio i'w gwneud hi'n haws. Ond dydyn ni ddim wedi edrych eto ar sut fyddwn ni'n edrych ar hyn yn y tymor hir.



Rhaid i gynghorau lleol wneud y gwaith, gyda chefnogaeth Llywodraeth Cymru.



Mae angen iddyn nhw edrych ar ba mor dda mae'r newidiadau yn gweithio. Y peth pwysicaf ydy faint mwy o bobl sy'n hawlio budd-daliadau.



Rydyn ni'n credu bod angen i gynghorau ddefnyddio gwasanaethau cyngor eraill hefyd.




Rydyn ni'n credu y dylai pobl gael y budd-daliadau sy'n ddyledus iddyn nhw. Ond hefyd yn gwybod bod cynghorau o dan lawer o bwysau ac nad oes ganddyn nhw ddigon o arian.




Dydyn ni ddim yn gwybod faint mwy o arian fydd ei angen.



Efallai y bydd angen i gynghorau wneud newidiadau i'r ffordd maen nhw'n gweithio. Er enghraifft, eu gwasanaethau cyfrifiadur a'u gwasanaethau ar-lein.



Rhaid i gynghorau lleol a Llywodraeth Cymru weithio gyda'i gilydd i edrych os ydy'r newidiadau yma yn bosibl.

Photosymbols®
Publisher Licence 403527247